# Canllawiau ar sicrwydd oedran a dyletswyddau Rhan 5 eraill ar gyfer darparwyr gwasanaeth sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ar wasanaethau ar-lein

Atodiad 2

Cyhoeddwyd 5 Rhagfyr 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................ 3

# 1. Trosolwg

**Beth mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ef**

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ar eu gwasanaethau ar-lein i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau rheoleiddio o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf'). Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau roi sicrwydd oedran ar waith i sicrhau na fydd plant fel mater o drefn yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig sy'n cael ei ddangos neu ei gyhoeddi ar eu gwasanaeth. [1, 2]

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar:

- asesu a yw gwasanaeth o fewn cwmpas dyletswyddau Rhan 5;
- enghreifftiau o fathau o wirio oedran ac amcangyfrif oedran a allai fod yn addas at ddibenion cydymffurfio, a meini prawf y dylai darparwyr gwasanaethau eu bodloni i sicrhau bod y sicrwydd oedran a weithredir yn hynod effeithiol wrth bennu'n gywir a yw defnyddiwr penodol yn blentyn ai beidio;
- sut y gall darparwyr gwasanaeth gadw cofnod ysgrifenedig a chynhyrchu datganiad sydd ar gael i'r cyhoedd yn nodi sut y maent wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau, gan gynnwys sut y gall darparwyr roi ystyriaeth i bwysigrwydd diogelu defnyddwyr rhag torri cyfraith preifatrwydd yn eu cofnod ysgrifenedig; a'r
- egwyddorion y byddwn fel arfer yn eu defnyddio wrth bennu a yw darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau a lle rydym yn debygol o ystyried nad yw wedi cydymffurfio.

Rhoddir crynodeb o'r dyletswyddau a'r argymhellion yr ymdrinnir â hwy yn y canllawiau hyn ar y dudalen nesaf.

## Crynodeb o ddyletswyddau Rhan 5 darparwyr gwasanaeth

✓ Rhoi sicrwydd oedran ar waith, er enghraifft gan ddefnyddio un neu fwy o'r dulliau a restrir yn Adran 4 o'r canllawiau.

✓Sicrhau bod y broses sicrwydd oedran a ddefnyddir: (a) o fath a allai fod yn hynod effeithiol wrth bennu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai beidio; a (b) yn cael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn hynod effeithiol o ran pennu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai beidio (er enghraifft drwy ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 4 o'r canllawiau).

✓Sicrhau, trwy ddefnyddio'r broses sicrwydd oedran dan sylw, nad yw plant fel mater o drefn yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig darparwr wedi'i reoleiddio ar y gwasanaeth (h.y., drwy ddefnyddio dull rheoli mynediad effeithiol).

[1] Rydym yn defnyddio'r term '**sicrwydd oedran**' i gyfeirio at wirio oedran ac amcangyfrif oedran. Rydym yn darparu rhagor o fanylion am ddiffiniadau yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon.
[2] Adran 81(2) o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.

✓Cadw cofnod ysgrifenedig hawdd ei ddeall o:

- y mathau o sicrwydd oedran a ddefnyddir a sut y cânt eu defnyddio gan y darparwr gwasanaeth neu ddarparwr sicrwydd oedran trydydd parti;
- sut mae’r darparwr gwasanaeth wedi ystyried cyfreithiau preifatrwydd a diogelu data wrth benderfynu pa broses sicrwydd oedran i’w defnyddio a sut.

✓Cynhyrchu crynodeb sydd ar gael i’r cyhoedd o’r rhannau o’r cofnod ysgrifenedig sy’n ymwneud â gweithredu sicrwydd oedran hynod effeithiol, gan gynnwys y dull(iau) sicrwydd oedran y mae’r darparwr gwasanaeth yn eu defnyddio a sut.

## Beth ddylai darparwyr gwasanaeth ei wneud i gynnal cydymffurfiaeth â’u dyletswyddau

+ Sicrhau bod y broses sicrwydd oedran a weithredir yn bodloni meini prawf cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch.

+ Ystyried egwyddorion hygyrchedd a rhyngweithredu wrth roi sicrwydd oedran ar waith.

+ Gweithredu unrhyw dechnegau i liniaru yn erbyn ymdrechion i osgoi’r broses sicrwydd oedran sy’n hygyrch i blant a lle mae’n rhesymol tybio y bydd plant efallai'n eu defnyddio.

+ Ystyried a ddylid cynnig dulliau amgen lle nad yw dull sicrwydd oedran ond yn hynod effeithiol ar gyfer nifer cyfyngedig o ddefnyddwyr.

+ Sicrhau bod y cofnod ysgrifenedig yn gydnerth, yn hygyrch ac yn gyfredol.

+ Ymgyfarwyddo â’r ddeddfwriaeth diogelu data, a sut i’w chymhwyso i’w dull(iau) sicrwydd oedran, drwy ymgynghori â chanllawiau gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

+ Peidio â lletya, rhannu neu ganiatáu cynnwys sy'n cyfarwyddo neu'n annog defnyddwyr dan oed i osgoi'r broses sicrwydd oedran neu reolaethau mynediad.